Cyfres yr 20fed Ganrif.

Rhyddid Gwirionedd Cariad.

Yr Ymofynydd

Cyf. 17. Rhif 7.] GORPHENAF, 1917. [Pris 2c.

CYNNWYSIAD

Llen a Bywyd. Gan Sarnicol.

Profiadau Milwr yng Ngorllewin Affrica.

Oddiar y Twr.

Arholiad yr Ysgolion Sul.

Cymanfaoedd Canu.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Congl yr Awen.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y nris ; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

S.E., Burry Port; D. Ll. J., Australia; Dr. J. D. J., Ystrad; J.T., Lerpwl; R.D.D., Mardy; J.J.W., Trebanos; W.J.E., Caerfyrddin; Miss J., Drefach; J.R., Maesymeillion; D.D., Gwardafolog; D.E.B., Llwyncinon; J.G.J., Cwrtnewydd; Mrs. D.J.T., Cribyn; D.D., Gorseinon; D.D., Llanbedr; D.J., Tydwgi; Miss D., Cellan; W.L., Felinfach; G.J., Castell Elwyn; Miss J., Tregaron; D.J., Clydach Vale; R.P., Narberth; D.M.D., Aberaman; M.L., Llandyssul; L.J., Bedlinog; Miss L., Dowlais; Dr. D.J.D., Aberystwyth; Miss J., Pontshan; Mrs. D., Llanwnen; J.J., Newington Causeway; W.W., Cefncoed, Merthyr Tydfil.

PRESBYTERIAN COLLEGE, CARMARTHEN.

A MATRICULATION CLASS will be opened at this College next Session for the benefit of Young Men and Women who desire to qualify for admission to the Theological Course.

Applicants must be 17 years of age or upwards, and before admission to the Class will be subjected to a Test-Examination, which will be held about the middle of September, at the same time as the College Entrance Examination.

Further particulars may be obtained of—

THE PRINCIPAL.

Geiriadur Newydd Spurrell

Saesneg a Chymraeg. Argraffiad Diweddaraf.

Dan olygiaeth J. BODVAN ANWYL.

Wedi ei helaethu a'i adnewyddu.

Pris 4/-. nett. - - Cludiad 3c. y copi.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

YR · YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1917. [CYF. XVII. RHIF 7.

LLÊN A BYWYD.

GAN SARNICOL.

[*Parhad o'r rhifyn diweddaf.*]

YMAE'R llenyddiaeth oreu'n cyfoethogi bywyd ac yn ei ddyfnhau; ac am hynny yn ychwanegu'n ddirfawr at ei fwyniant mwyaf parhaol. Mae yn eangu'r meddwl ac yn lledaenu serch; faint yn fwy o bethau fedr dyn diwylliedig eu caru na fedr yr aniwylliedig!

Flynyddau 'nol gwelais flodyn gwyn yn tyfu gerllaw fy nghartref yng Ngheredigion wledig; gwelais ef, a dyna'r oll; nid oedd ond blodyn gwyllt a diwerth yn tyfu yn y mwswg wrth fôn y coed yn yr allt gerllaw fy nghartref. Flynyddau ar ol hyn gwelais ddarlun o'r blodeuyn gwyn; darllenais am dano; myfyriais arno; olrheiniais ei hanes; sylwais ar ei brydferthwch; yn y Mabinogion gwelais fod bysedd Olwen yn eu gwynder dihafal yn cael eu cyffelybu i'r blodyn bychan hwn; a byth er hynny mae dyfodiad yr anemoni gyda'r gwanwyn cynnar ym môn y coed yn yr allt yn un o ddigwyddiadau'r flwyddyn yr edrychaf ymlaen atynt gyda mwyaf o bleser. "Gwell fuasai gennyf ganu caniadau gwlad nag ysgrifennu ei chyfreithiau," meddai rhywun. Oddiar yr amser niwlog pell hwnnw pan gyffroid yspryd dewrder y milwr gan awen dân y bardd; pan yr elai byddinoedd yn fflam yn swn caniadau cenedl; mae gwyr llên wedi dylanwadu mwy ar hanes y byd na chapleniaid ac ymherawdwyr. Yn nyddiau gynt y bardd oedd bron unig gynrychiolydd llenyddiaeth. Erbyn hyn nis gellir dweyd ei fod yn cario'r dylanwad feddai gynt; ond a chymryd cyfanswm pwerau llenorion y dydd, hyd yn oed yng Nghymru fechan gyfyng, mae eu dylanwad ar fywyd yn anrhaethol.

Nid ein gwaith fel Cymrodorion yw amheu daioni'r yspryd cenedlaethol; i'r gwrthwyneb, ein dyled yw ei gadw'n fyw a'i feithrin, a'i

cymaint o ieuenctyd Cymru? Mae achub eneidiau o bwys dirfawr, ond yn sicr mae achub bywydau yn waith crefyddol hefyd.

Mae gweithredoedd dyn yn dibynnu ar ei ffydd o hyd; a'i ffydd yn dibynnu ar yr awyr ysprydol a anadla. Ac nid oes neb mwy na'r bardd a'r llenor fedr buro'r awyr hon.

Ym mywyd y Cymro, mae llenyddiaeth o hyd yn cymryd lle pwysig. Llên yw cysur ei oriau hamddenol; ei lawenydd yn ystod ei oes; i'w foddhau mewn llonder, ac i'w ddiddanu mewn galar.

Ysgrif ar ei phen ei hun fuasai adrodd dylanwad llenyddiaeth y Beibl ar fywyd Cymru; nid oes ond eisieu gofyn, Beth fuasai ein gwlad pe erioed heb glywed am Lyfr y Llyfrau? Y Beibl yw ffynhonnell o'r hon y tardd holl ffrydiau llên Cymru ddiweddar; efe yw'r haul o'r hwn y daw pob pelydryn o oleuni llenyddol diweddar ar ein gwlad.

Hir y parhaed bywyd Cymru flaguro mewn llenyddiaeth; hir y parhaed y llenyddiaeth honno i ddwyn ffrwyth fydd yn ail feithrin bywyd yn ei dro; a bod llên a bywyd Cymru i furlumi allan, fel ffynnon ar ochr y mynydd, er lles ac adloniant y byd, yn dymhorol ac ysprydol—

Tra môr, tra Brython.

MAIR.

Fe'i gwelais hi'n blentyn
Iach, siriol a chwai,
Cyn dlysed a'r wawrddydd
Ar fore o Fai.
Chwareuai 'mhlith blodeu
O fore hyd hwyr,
A'i thegwch yn huddo
Eu tegwch yn llwyr.

Fe'i gwelais hi eto
Yn ferch ddeunaw oed,
A rhinwedd yn tarddu
Lle sangai ei throed;
Ei geiriau yn fiwsig,—
Mor ddwyfol y fun
Edmygid gan luoedd,
A gerid gan un.

Aeth heibio flynyddau,
A thyfu'n dlws iawn
Wnai'r blagur yn flodau,
A'r blodau yn rawn.
Brenhines urddasol
Ei theulu oedd hi,
Prydferthach o lawer
Na chynt, dybiwn i.

Fe'i gwelais hi eto
Yn ei holaf awr,
A Duw yn ei chynnal,
A'r nos yn troi'n wawr.
Heb ofnau, heb eisiau
Yng nghaddug y glyn,
A meddwn—"perffeithrwydd
Prydferthwch yw hyn."

H. F. Lyte
(*Cyf. J. Islan Jones*).

PROFIADAU MILWR YNG NGORLLEWIN AFFRICA.

Mr. Golygydd,

Ar gais rhai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD ceisiaf ysgrifenu ychydig ar yr hyn a welais yn Affrica Orllewinol, yn ogystal ag ychydig o'm hanes fy hunan fel aelod o'r fyddin Brydeinig. Gyda'r *Mechanical Transport* oeddwn, a ches y fraint o fod yn llygad-dyst o lawer o bethau yn delio a hynodrwydd y trigolion, eu dulliau o fyw, a'u harferion.

'Rwyf yn dechreu gyda fy ymadawiad o Avonmouth, a chyffyrddaf a phob peth a gredaf fydd o ddyddordeb i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Codwyd yr angor am wyth o'r gloch, nos Iau, Mawrth y 9fed, a chyda hyny, cychwynasom ar ein taith bell. Yn fuan gwelwn y porthladd yn pellhau, pellhau. Yn amser heddwch tebyg y buasai ein perthynasau a'n cyfeillion yn dod i'n gweld yn cychwyn, ond gan mai amser rhyfela yw, oer yw yr ymadawiad, ac yn darawiadol, ni gofiwn am ganig Dr. Parry, 'Ffarwel i ti Gymru Fad,' ond yr oedd ein neges ni yn dra gwahanol.

Ar fwrdd y 'Cawdor Castle' yr oedd bron saith cant o rif. Yn fuan, cyfarwyddwyd a'r hyn yw bywyd ar y môr. *Lifebelts* oedd ein cyfeillion cynhesaf yr wythnos gyntaf, a'r canlyniad oedd fod ein bywyd yn hollol dawel. Pan yn croesi'r Bay of Biscay gallwch ddychmygu ein profiad yn well na'r un desgrifiad a fedraf fi roddi.

Bydd y Sul cyntaf ar y môr i mi yn fythgofiadwy. Allan o'r nifer oedd ar y bwrdd cawd mantais i grynhoi côr cryno, a chyda hyny cawsom offerynau i'n cynorthwyo. Y cadben oedd y pregethwr, a charaf ddweyd ei fod yn gymeriad cydwybodol. Rhoddodd bregeth fer, a chyda hyny awgrymodd i ni greu awyrgylch ar y bwrdd a fyddai yn glod i ni yn ol llaw; ac ym mhellach, i fyw mor hapus ag oedd bosibl. Yr oedd bob nos a boreu yn gweddio am ein diogelwch. Yr oedd yn hoff o ganu. Dewisai ef ddwy dôn a ninnau ddwy i'r gwasanaeth y Sul, a hynny yn ystod y fordaith. Yr oedd tua deuddeg o Gymry yn ein cwmni, a phob nos gwelid y cylch bach gyda'u gilydd hyd naw o'r gloch.

Mewn deg diwrnod (ar ddydd Sul) cyrhaeddasom Ynys St. Vincent. Aroswyd yma ddau ddiwrnod. Cawd golygfa fythgofiadwy pan yn cyrhaedd. Mae'r lle yn neilldiol o ramantus; codai'r haul fel pelen o dân; dysgleiriai trwy'r niwl, a thaflai liw cochddu ar y creigiau serth. Nid oedd dim pren yn y golwg, dim ond tai ar lan y môr, a'u tô i gyd yn lâs. Yn y porthladd gwelwyd amryw o'n llongau rhyfel, rhai o honynt yn perthyn i'r dosbarth diweddaraf.

Hwyliwyd eto, ac am dair wythnos ni welwyd dim ond dwr, dwr; ond ar y bedwaredd wythnos hwyliwyd i olwg tir Durban. Cyrhaeddasom y lle hwnw ar ddydd Sul eto, a thra yn llwytho glô a dwr, cawd mantais i ymweled a'r lle. Deallasom mai ein llong ni oedd yr ail long o'r hen wlad yn galw yn Durban, a'r canlyniad oedd i ni gael croesawiad cynnes iawn yn ystod ein harosiad.

Boreu drannoeth daeth y Maer i ymweled a'r Cadben ynglyn a rhoddi gwahoddiad i ni i dreulio'r hwyr, a swppera gydag ef, ond hwylio allan wnawd tua phedwar o'r gloch, ac yn mhen saith diwrnod cyrhaeddwyd Mombasa. Nid yw porthladd Mombasa wedi ei wneyd i dderbyn llongau mawr, a'r canlyniad oedd ein bod yn methu glanio ar unwaith. Er hyny, gwnawd darpariadau, ac yn fuan yr oedd pump-ar-hugain yn glanio bob dydd, ac mewn naw diwrnod glaniodd y cwmni i gyd. Yn ystod yr wythnos gyntaf aeth triugain-a-phymtheg i'r clafdy, a thua thriugain i ymweled a'r meddyg bob

boreu. Felly, allan o'r cwmni ag oedd yn cyfrif dau gant a thriugain, nid oedd llawer ar ol i gael y modurau yn barod. Yr oedd yn eithriadol o boeth yno, a dim ond y prydnawn a'r boreu y medrem weithio. Gyda hyny yr oedd yn rhaid bod yn ofalus iawn ynglyn a'r bwyd.

Pobl o India, Persia, Aifft, Arabia a Groeg oedd y masnachwyr, ac felly yr oedd yno amryw ieithoedd i'w clywed. Yr oedd gwisg oreu'r bobl yn brydferth iawn. Yr oeddent yn hoff o aur ac arian. Yr oedd edau aur ac arian yn chwareu rhan bwysig yn eu dillad. Cuddid rhan o'r menywod o'r golwg yn hollol yn eu dillad, dim ysmotyn o'r croen yn y golwg. Cuddid hyd yn oed y llygaid gan *veil* drwchus. Mae y mwyafrif yn gyfoethog iawn, ac yn grefyddol iawn. Mae'r haul yn Ddûw mawr ganddynt, a gwelir cynulleidfa fechan yma a thraw ar eu gliniau yn plygu i gusanu'r ddaear 'nawr ac yn y man yn ystod y gwasanaeth. Ychydig o ganu sy'n cymeryd lle. Talwyd ymweliad a'r brif eglwys, sef eglwys Seisnig. Adeilad eang a phrydferth, a'r palmwydd yn dew oddiamgylch, a'r gwahanol flodau tramorol bob ochr y llwybrau. Pan ar ben yr eglwys gwelir y wlad oddiamgylch yn ei holl brydferthwch nes peri i ni ddychmygu am Baradwys. Y peth oeddem yn golli yma oedd cerddoriaeth yr adar, er fod adar prydferth yno, nid oedd ganddynt gân.

Cynhelir gwasanaeth nos a boreu i'r Saeson, yn y prydnawn i'r bobl lliwiedig, ac yn y gwasanaeth hwn gwelir cymaint a phum cant. Medrant ganu yn felus iawn, ac y maent yn wrandawyr perffaith. Traddodir y bregeth yn yr iaith Swahilli. Gwelais feini coffa yn yr eglwys, i gynrychiolwyr Prydeinig, ag o'r wyth ag oedd wedi marw yno yr oedd saith yn eu beddau cyn cyrhaedd eu deuddegar-hugain, a'r wythfed cyn bod yn un-ar-bymtheg-ar-hugain, ac yr oedd lliw y rhai byw fel pe i'w dilyn yn fuan.

Ar ol pythefnos o gynnefino a'r gwres cychwynasom ar ein siwrnai i'r wlad, ar Reilffordd Uganda, ac er nad oedd y daith ond tri chant a haner o filldiroedd buom ddau ddiwrnod a noson yn y trên. Yn ystod y siwrnai gwelwyd gweledigaethau rhyfeddol, weithiau am filldiroedd rhwng coedydd mawrion. Ar y 'monkey-tree' ceir dail tua phymtheg troedfedd o hyd; yr oedd y borfa a elwir yn 'bush grass' tua llathen o hyd, a'r 'elephant grass' yn ddeuddeg troedfedd. Yr oeddem yn cael eangder mawr o wlad agored, a'r anifeiliaid gwylltion o gwmpas—zebras, buffaloes, ostriches, giraffes, springboks. Yn y coedydd gwelir 'kraals' yma a thraw, a phob amser gwelir y trigolion yn dod allan i weld y trên, ac yn gwaeddi 'Iambo,' y Swahilli am 'croesaw.'

O'r diwedd cyrhaeddwyd Kajado, lle'r oedd yr hinsawdd yn ddymunol. Yr oeddem ar fan uchel ac 'roedd y weledigaeth mor belled ag y gallai nerth y llygaid gyraedd. Yn y pellder draw, ar ddiwrnod clir, yr oeddwn yn medru gweld mynydd Kilimanjaro, a'i gopa wedi ei wisgo ag eira. Wedi treulio dau ddiwrnod yma symudwyd eto, ond y tro hwn i uno a'r fyddin gyntaf, sef y fyddin oedd o dan y Cadfridog Smuts. Wedi hynny, yr oedd yn rhaid mynd 'nol dros yr un ffordd hyd Voi, ag o'r lle hynny i Taveta, Makindu, Himo River, a Moshi. Tra yn Moshi gweithiwyd yn ddiwyd iawn. 'Roedd y wlad oeddem i dramwyo yn fyw o anifeiliaid gwylltion—yn enwedig y llewod. Gweledigaeth gyffredin oedd gweled llewpart yn myned heibio, neu yn aros i syllu, ond nid oeddent yn caru swn y modur. Pan dalodd y Cadfridog Smuts ymweliad a'r rhan hon o'r fyddin cafodd ei rwystro ar y ffordd gan lewod, a'r canlyniad oedd iddo orchymyn ein swyddogion nad oedd modur unigol i dramwyo, a phan fyddai un yn torri lawr nad oedd y gyrwyr i aros yno dros y nôs. Cyffredin oedd clywed am golledion yn mhlith y ceffylau. Aroswyd yn y lle hwn am chwech wythnos, a chawd un gwasanaeth crefyddol yn ystod yr amser.

Eisioes yr oedd twymynon yn dechreu gwneyd eu hol ar y milwyr, ac yr oeddem yn dod a llwyth o gleifion bob siwrnai 'nol i'r *camps*. Truenus oedd eu gweled—methent sefyll ar eu traed, ac yfent bobpeth gwlyb oddiamgylch, ac er fod y tywydd yn ofnadwy o boeth gwelid cleifion yn gwisgo'r '*great coat*' a thri neu bedwar o flancedi gyda hynny. Yr oedd rhai wedi colli eu synwyrau, eraill yn gweddio am gael eu gadael yn llonydd, a'r rhai oedd yn medru bwyta bwytaent '*bully and biscuits*.' Efallai y byddai can' milldir rhyngom a'r clafdy, a gwaith poenus oedd cludo'r cleifion yno. Gwn i lawer farw ar y ffordd.

Cymerais fantais hefyd, ar fy arhosiad yn Moshi, i ddysgu ychydig o'r iaith, yn ogystal a bod yn llygaddyst o'u ffyrdd a'u harferion. Pan yn siarad a Swahilli ni fydd yn hir cyn dweyd ei fod yn well dyn yn mhob ystyr na'r Kavirondo, a phan yn siarad a hwnnw fe ddwed yntau ei fod yn well na'r Swahilli. Felly y ceir y cenhedloedd yn credu am eu gilydd. Gan mai Swahilli oedd ein gwas, ysgrifenaf yn bennaf am ei genedl ef. O ran natur maent yn fwyn ac yn ufudd iawn—mor onest a'r dydd. Mor bell ag oedd trafodaeth rhyngom a'n gilydd. Gwnelent unpeth am ddilledyn. Mae parch mawr ganddynt i ddyn gwyn. Ni chredant fod y gwahanol *rupees* yr un faint o werth. Yr oedd yn well ganddynt weld argraff Sior V ar y dernyn arian nag eiddo Edward. Yr oedd gweld argraff y Kaiser fel gwenwyn iddynt. Maent yn arwain bywyd hapus, ac fel rheol mae ganddynt ddwy wraig. Prynnu ei wragedd y mae, ac mae un wraig yn werth deg-ar-hugain o ddefaid, a'r ail yn werth rhywbeth yn gyfartal. Ar ol priodi nid yw'r gwr bellach yn gweithio—dim ond y gwragedd. Y gwragedd sydd yn adeiladu. Nid ydynt yn byw o dan yr un to. Y wraig sydd yn edrych ar ol pobpeth, hyd yn oed y tir. Mae llawer o ganlynwyr Mahomet ymhlith y Swahilli. Pan yn cynnal gwasanaeth yr henaf sydd yn ei gymeryd mewn llaw. Os bydd rhywbeth yn galw sylw y pentref, yr henaf sydd yn rheoli. Mae'r menywod yn fud mewn cyfarfodydd.

Mewn gwisg, mae'r menywod bob amser yn darawiadol, ac yn hoff iawn o liwiau dysglaer. Nid oes dillad fel gwledydd gwareiddiedig ganddynt, ac nid yw tymorau y flwyddyn yn peri iddynt newid ar eu *styles*. Meddyliwch am '*print*,' fel y dywedir yn Nghymru—yn latheni o hyd a throedfedd o led, yn rhwymedig am y corph, a thros un ysgwydd—pob math o argraffiadau, mewn pob lliw; patrynnau o waith llaw, ac fynychaf wedi eu gwneyd yn India. Mae'r traed a'r pen yn noeth; ar y breichiau a'r siwrne gwelir cylchoedd o bres a haiarn; ar y clustiau gwelir pethau hagr iawn. Pan yn blant mae twll bach yn cael ei wneyd yn y rhan isaf o'r clust, ac o bryd i bryd, yn ystod eu tyfiant, maent yn eu helaethu hyd nes yw tua thair modfedd o dwll, fel y medrant osod llestr gwag '*Condensed Milk*' ynddo. Pan na fydd rhywbeth ar y clust, gwelir ef yn hongian, a bron yn cyffwrdd a'r ysgwydd. Mae'r hynodrwydd hwn yn perthyn i'r gwryw hefyd. Mae'r fenyw yn ychwanegu at hyn trwy osod gem tlws yn y ffroen aswy. Nid yw eu harferion yn lân. Mae poeri yn bwysig ganddynt. Mae arferion poeri ar unrhyw un mewn gwlad wareiddiedig yn golygu gelyniaeth o'r radd uchaf, tra gyda thrigolion Affrica mae yn golygu parch mawr. Mae poeri ar blentyn yn barch o radd uchel. Ni welir y bobl byth yn cerdded ysgwydd wrth ysgwydd, ond un ar ol y llall, a thua dwy lath rhwng pob dau. Pan fydd y menywod yn cario dwr gwelir tua dwsin neu ddau mewn llinell hir, ac yn poeri trwy eu danedd rhagorol. Efallai bydd baban yn rhwym ar y cefn, a'i goesau bychain yn hongian, a'i wallt bach cwrlog prydferth yn noeth.

Yn ddiamheu, yr ydych yn cydymdeimlo a'r fenyw Affricanaidd; wel, mae yn gryfach o lawer na'r gwryw. Mae hwnnw, rhan fynychaf,

yn deneu iawn, a dim llawer amgenach na chrwtyn pymtheg oed, tra mae'r fenyw a phâr o ysgwyddau llydain, a phob arwydd o gryfder. Mae ganddynt un rhagoriaeth sydd yn esiampl i bobl wareiddiedig. Pan fydd un o honynt yn teithio, dywedwch ar neges i rywle'n mhell, gwelir ef yn uno a'r cylch cyntaf fydd yn ymprydio, a gwelir ef yn aros yn y pentref agosaf hyd fachludiad haul. Bydd yn swpera a chysgu yn un o'r lletyau cyntaf y daw o hyd iddo. Er ei fod yn beiffaith ddieithr nid oes neb yn gofyn iddo beth yw ei enw, nac o b'le y daeth, nac i ba le y mae yn mynd. Nid yw yntau, ar y llaw arall, yn dweyd dim o'i hanes. Pan yn ymadael, yn ogystal a phan yn dod siglant ddwylaw, ac mae tipyn o hynodrwydd yn y perfformiad. Maent yn dechreu fel ein dull ni, ond y maent yn cwpla trwy rwymo y ddau fys bawd a siglo dair gwaith.

Pan anfonwyd ein gwas un diwrnod i geisio wyau dywedodd eu bod i'w cael yn y fferm agosaf. Felly, cychwynodd am wyth o'r gloch ag arian i brynu haner cant. Wel, aeth y diwrnod cyntaf heibio—dim son am y crwt; eto, dim son yr ail ddiwrnod, ond gyda machludiad haul y trydydd dydd, cyrhaeddodd gyda'i faich. Yn y cyfamser, tra ar ei daith, 'roedd wedi gwneyd llestr i'w cario, gwaith plethedig ardderchog, ac wedi trefnu yr wyau yn gryno, fel nad oedd un o honynt wedi torri. Erbyn holi'r cwbl 'roedd y gwan wedi cerdded triugain-a-deg o filldiroedd er mwyn cael wyau i'r 'dyn gwyn.'

I'w barhau.

D.

Derwen, Trevor St.,
Aberdar,
Dydd Iau, Mehefin 14, 1917.

ODDIAR Y TWR.

Hen ddwediad, a dwediad cyffredin iawn, yw hwn—

NAD OES UN DRWG YN DDRWG I GYD.

Ai gwir hollol y dywediad ni fedraf ddatgan barn. Yn wir, daw i'm meddwl beth amheuaeth gyda golwg ar ei gywirdeb. Ffurf amgenach o'r dywediad, efallai, ffurfa rydd fyneg-iad ffyddlonach i'r meddwl fwriedid gyfleu gan yr hwn a fathodd yr ymadrodd uchod, yw—nad oes un drwg na ddeillia rhyw ddaioni o hono. I'm tyb i, yn wir, yn nhyb yr oll o'n darllenwyr, mi gredaf, drwg i gyd, drwg trwyddo, drwg ym mhob agwedd o hono, yw rhyfel. Ni fedraf ddychmygu am un daioni ellir ddweyd am dano. Nid yw amgen nag un o olion y barbareiddiwch o'r hwn y mae dynoliaeth wedi codi, ond o'r hwn nad yw, eto, wedi ymddihatru.

"UFFERN WEDI EI GOLLWNG YN RHYDD AR Y DDAEAR"

yw desgrifiad un awdur enwog o hono. Credaf mai dyna farn wirioneddol pob Prydeiniwr—pob Prydeiniwr, pa fodd bynnag, sydd wedi gwneud un math ar ymgais i amgyffred beth yw rhyfel; a pha Brydeiniwr sydd, heddyw, nad yw wedi gwneud hyn? Rhaid myned i Germani cyn cael neb faidd ddweyd fod rhyfel yn fater o reidrwydd, nas gellir ei ochelyd, ac nad

oes galw ar ddyn i'w ochelyd—*a biological necessity*, fel y dywed un. Dyna un o erthyglau credo filitaraidd y blaid fllitaraidd yn Germani, ac un o'r syniadau sydd wrth wraidd y rhyfel ofnadwy hwn. Ie, ofnadwy! Pwy all ddirnad y dioddefaint a'r creulonderau y mae wedi bod yn achos o honynt yn ystod y ddwy flynedd a hanner diweddaf? dioddefaint a chreulonderau ydynt wedi peri arswyd i'r byd gwareiddiedig drwyddo. Ydyw hi yn bosibl i un daioni ddeilliaw o ddrwg mor fawr? Amhosibl!—dyna'r ateb cyntaf ddaw i'n meddwl yn ddiameu. Amhosibl! Ac eto mae'r amhosibl wedi digwydd eisoes. Gan nad pa ddaioni arall all ddeilliaw o hono, mae'r ffaith ei fod eisoes

Wedi Esgor ar y fath Chwyldroad yn Rwssia

yn ddaioni annhraethol ei werth, ac yn ddaioni sydd wedi dwyn teimlad o ryddhad i fynwes pob carwr o ryddid a breiniau dyn. Ydyw'r daioni hwn yn gyfwerth â'r aberthau o'r fath filoedd o fywydau dynol er dechreu y rhyfel? I Rwssia, yn ddiamheuol, y mae. Efallai (a thebyg) nad oes un gwlad yn Ewrop yng nghylch yr hon y mae gwybodaeth naw o bob deg o Brydeinwyr mor gyfyng. Wrth droi i'n llyfr daear-lenni fe sylwn ar ei thiriogaethau Ewropaidd eang—agos cymaint a'r gweddill o Ewrop gyda'u gilydd. Yna, ar ol croesi'r llinell rhwng y ddau gyfandir, Ewrop ac Asia, gwelwn fod ei thiriogaethau yn estyn dros y cyfandir Asiaidd hyd lannau'r Mor Tawelog. Mae pob ymgais i ddirnad eangder y tiriogaethau hyn yn rhwym o fethu. Beth am y boblogaeth luosog sydd yn preswylio ynddynt? Ni wyddom—naw o bob deg o honom ond ychydig iawn am danynt. Ond cawn ambell i gipdrem i'w bywyd yn awr ac eilwaith, trwy'r lenyddiaeth gyfoethog a berthyn iddynt, megis eiddo Tolstoy, ac ereill ellid eu henwi. Ac amlygir inni, gan y cipdremau hyn, boblogaeth o filiynau afrifedig yn byw mewn caethiwed canol-oesol; nid yn unig yn y caethiwed mwyaf, ond hefyd, mor bell ag y mae a fynno'r werin bobl â'r mater, yn y tlodi dygnaf; heb un llais yn y llywodraeth; na feiddiant agor eu genau yn erbyn yr awdurdodau (Gwladol ac Eglwysig) heb naill ai beryglu eu bywyd neu osod eu hunain yn agored i alltudiaeth i Siberia, yno i fyw mewn unigedd dihoenawl. I lawer o Brydeinwyr o ogwydd ryddfrydig, werinaidd, achos o ofid blin oedd y ffaith fod Prydain ddemocrataidd yn cyd-ryfela gyda gallu gormesol o'r fath hyn. Nid yw hyn yn achos gofid i neb mwyach. Ar amrantiad (fel pe tae) mae Rwssia wedi torri ei chadwynau, wedi ymryddhau o'i llyfetheiriau, wedi danfon ei Theyrn a'i blaid i fywyd anghyhoedd, ac wedi mynnu'r llywodraeth i'w llaw ei hun—o leiaf, i law rhai y mae gan y wlad ymddiriedaeth ynddynt.

Mae Rwssia yn Rwssia Rydd.

A phlentyn y rhyfel aethus yr ydym yn ei ganol yw y rhyddid hwn; i bob ymddangosiad, plentyn cryf, gwrol, iachus, â gobaith yn argraffedig ar ei ruddiau. Y mae pob gwerinwr drwy'r holl fyd yn anadlu yn rhwyddach oblegid y cyfnewidiad mawr, bendithiol hwn. Yn awr, gellir anturio dweyd fod galluoedd democrataidd y byd gwareiddiedig wedi cyd-ymrestru i amddiffyn rhyddid rhag yr ymgais ddieflig i'w ddwyn oddiarnom, i sefydlu hawl pob cenedl, bydded fawr neu fach, i fyw ei bywyd ei hun, yn ei ffordd ei hun, heb ymyraeth ar du neb. Ni ellid dweyd hyn cyhyd ag y parhai Rwssia yn Rwssia gaeth, ormesol. Ni olygaf, wrth ddweyd o honof hyn, fod y gwaith wedi ei gwblhau. Na; y mae ganddi ffordd bell i'w throedio eto. Ond y mae'r haul wedi codi arni, a hithau a'i gwyneb yn yr iawn gyfeiriad. "A swm mawr y cefais i y ddinas-fraint hon" yw'r unig ymadrodd ddaw i'm

meddwl wrth geisio o honof ffurfio ryw fath ar amcangyfrif am faint y pris sydd wedi ei dalu am y rhyddid hwn—dim llai na bywyd miloedd, na ellir dweyd yn gywir eu nifer, o ieuenctid y gwledydd, heb son am y dioddefaint a'r creulonderau a'r golled o bob math na ellir ffurfio un math ar gyfrif am eu maint.

BETH AM Y DYFODOL?

Ofer, wrth gwrs, yw pob proffwydo. Ond ni fydd cwpan carwyr rhyddid a heddwch yn llawn oddieithr y syrth yr un fath ar fendith i ran Germani ac Awstria a Thwrci a Bwlgaria. Os digwydd hyn, yna bydd gennym ryw sail—a sail gref—dros obeithio na chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac na ddysgant ryfel mwyach; oblegid nid o'r werin, yn un wlad, y cyfyd yr awydd am ryfel, eithr o galonnau'r bobl "sydd dda ganddynt ryfel"—Ymherawdwyr, Brenhinoedd, Llywodraethwyr a garant drais a gormes.

SYLWEDYDD.

ARHOLIAD YR YSGOLION SUL.

Yn ol fel y penderfynwyd yn Rhydygwin, Awst diweddaf, arholwyd yr oll o'n hysgolion yn Sir Aberteifi gan yr un arholwr, sef Mr. J. R. Thomas, C.M., Pontshaen, ac ysgolion Sir Forganwg gan yr un arholwr, sef y Parch. E. T. Evans, Aberdar. Da genym allu dweyd fod nifer yr ymgeiswyr lawer yn uwch eleni nag arfer. Tebyg fod cael un arholwr yn mhob sir, ac un safon i brofi yr ysgolion wrthi, wedi dwyn mwy o ymgeiswyr, ac hefyd fod y darluniau, yr hyn oedd yn newydd beth, wedi creu mwy o ddyddordeb yn y gwersi. Dengys hyn fod y cynllun newydd yn rhagori ar yr hen. Yn ychwanegol at roddi enwau yr ymgeiswyr llwyddianus, a'u safle yn yr arholiad, cafwyd adroddiadau maith gan y ddau arholwr. Pleser i bawb a deimlant ddyddordeb yn ngwaith y plant fyddai cael darllen yr adroddiadau hyn yn gyflawn ar dudalennau yr YMOFYNYDD, ond gofod a balla. Wele ychydig o adroddiad Mr. J. R. Thomas:—"Gair am y darluniau. Newydd beth. Yr oedd y plant yn eu hoffi, bid siwr. A ydyw y rhieni a'r athrawon yn teimlo yn ddiolchgar i'r rhai fu a llaw yn eu gosod i fewn? Choelia i fawr—ar y cyfan. Er fod plant yn hoff o ddarluniau, nid yw eu meddyliau ieuainc yn gallu deall a gwerthfawrogi yr oll a ddysgir ganddynt. Felly dylai yr athrawon eu hegluro yn drwyadl. Drwg genyf orfod dweyd mai yr argraff adawyd ar fy meddwl am y darluniau oedd na thalwyd nemawr o sylw iddynt oddigerth yn yr ysgolion canlynol—gwell peidio enwi efallai. Yr ydym yn byw yn oes y darluniau, a charwn argyhoeddi rhieni ac athrawon ei bod yn ddyledswydd arnynt i gynorthwyo yr ieuainc i ddeall y darluniau welant bron bob dydd. Yr oedd nifer y plant yn foddhaol iawn yn yr oll o'r ysgolion. Beth am yr atebion? Y mae canmoliaeth uchel yn deilwng y tro hwn. Ni ddychmygais fod y fath dalentau disglaer i'w cael yn y Darn Undodaidd. Carech wybod, debyg iawn, pa ysgolion wnaethant

oreu. Mae dweyd hyn yn fater go gynil, onid yw? Ond digon yw dweyd fod yr oll ymhell tu hwnt i'm disgwyliad. Efallai y gwnawd ymdrech arbenig eleni, oherwydd fod yr oll i ymddangos o flaen un arholydd. Os felly, cynllun newydd, dedwydd da. Mae newydd-deb yn tynu sylw, a rhaid wrtho yn fynych cyn cael dyddordeb a llwyddiant. Credaf fod athrawon galluog ac ymroddgar yn haeddu ein cydnabyddiaeth. Arddangoswyd medrusrwydd y cyfryw mewn amryw fannau, yn neilldnol felly yn Safon II., yn y tair ysgol ganlynol, sef (na, ni enwaf). Os caf hamdden gwell na'r presenol, cynygiaf ychydig sylwadau eto cyn hir ar yr angenrheidrwydd o wneyd rhyw fath o *grouping* o'r ysgolion."

Ysgrifena y Parch. E. T. Evans fel y canlyn :—"Yn anffodus, oblegid rhyw reswm neu gilydd, ni ddaeth ond tri plentyn ynghyd yn Trebanos. Yr oeddwn ychydig bach yn siomedig yn hyn. Gobeithio y gwnaiff athrawon yr Ysgol Sul hon ymdrech decach i ddysgu'r llyfryn am y flwyddyn nesaf. Yr oedd plant Hen Dy Cwrdd, Aberdar, a Chefncoed, yn deall eu gwaith yn drwyadl. Atebasant, nid yn unig i gwestiynau y llyfryn gosodedig, ond hefyd i gwestiynau eraill ar yr un pynciau, mewn modd hynod hapus a meistrolgar, yr hyn a arwyddai fod eu hathrawon wedi gweithio yn onest a dyfal, nid yn unig i ddysgu'r llyfr yn beirianol, ond hefyd yn ddeallol. Yr Ysgol oreu yn y parthau hyn y tro yma ydyw Cefncoed."

Yn wythnos y Pasc y cynhaliwyd yr Arholiad er mwyn bod yn gyfleus i Mr. J. R. Thomas. Fe gofia y darllenwyr i'r hin fod yn eithriadol o arw yr wythnos hono. Fel hyn oedd y cyfarchiad anfonodd y Trysorydd, Mr. D. R. Davies (Cledlyn), Cwrtnewydd, i Mr. J. R. Thomas, gyda'r tâl am ei dreuliau.

Gan mai yn wythnos Gwyliau'r Pasg
Y deuai'r dasg ar d'ysgwydd,
Fe dybiai'r Pwyllgor y do'i gwên
Yr heulwen i'r Arholydd,
A threfnwyd iddo am ei hynt
Gael punt o law'r Trysorydd.

Croes i'r disgwyliad troes yr hin,
Can's curo'n flin wnai'r corwynt,
A'r cesair breision ddoent bob dydd
I'r Holydd i roi helynt,—
Nes bach am zêl y gwron hwn,
Mi dybiwn, fyddai dwybunt.

L. Williams, *Ysgrifenydd.*

Maen-Coffa Ceredig. - Bwriada eglwys fechan y Ciliau osod i fynu ar fur y capel Faen-Coffa i'r diweddar Barch. E. Ceredig Jones, M.A., a dadorchuddir y cyfryw ar achlysur cynhaliad y Cyfarfodydd Blynyddol.

Anrhydeddu Gwron.—Da genym ddeall fod Lance-Corporal Evan Lloyd, Graig Gwyon, Llandyssul, yr hwn sydd gyda'r Lewis Gun, yn yr 8th Devon, wedi ei anrhegu a'r *Military Medal*, fel cydnabyddiaeth am ymddygiad gwrol ar faes y gâd yn Ffrainc. Dymunem ei longyfarch yn galonog ar yr anrhydedd hwn, ac ar iddo gael adferiad buan. Y mae yn awr mewn clafdŷ yn Wallasey.

Y Parch. D. Cellan Evans.—Y mae y gweinidog ieuanc uchod wedi cynyg ei wasanaeth am dymor i'r Y.M.C.A., a bwriada hwylio tua Ffrainc tua dechreu Gorffennaf. Dymunwn Dduw'n rhwydd iddo hyd oni ddychwelo.

CYMANFAOEDD CANU.

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Undodiaid Morganwg, Mai 29, 1917, yn Hen-Dy-Cwrdd, Cefncoed. Bu pryder mawr ai doeth neu annoeth fyddai ei chynal eleni, ond trodd allan tuhwnt i bob disgwyliad. Credaf fod pawb a fu yno yn unfarn yn datgan eu diolchgarwch i'r pwyllgor am ei chynal, canys y mae wedi dyfod yn sefydliad o bwys mawr erbyn hyn, yn enwedig i'r plant, ac mae'n bwysig ein bod yn gofalu am y rhan yma o'n heglwysi. Arweiniwyd y tro hwn gan Mr. John Thomas, Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar. Penderfynodd y pwyllgor i beidio argraffu rhaglen a thonau ynddo, dim ond yr emynau, a defnyddio'r tonau bron bob un o'r Perlau Moliant, a chredaf mai cynllun doeth oedd hwn dan yr amgylchiadau costfawr presenol. Dechreuwyd a llywyddwyd cyfarfod y prydnawn gan y Parch. E. T. Evans, Highland Place. Canwyd amryw donau, ac yn eu plith canwyd y dôn "Hiraeth," er cof am y diweddar Mr. John Lewis, Cefn, yr hwn a gyfarfyddodd a damwain angeuol ychydig amser yn ol yn y lofa. Fe'i canwyd yn deimladwy iawn. Cyn ei chanu cynygiodd yr arweinydd mewn ychydig eiriau pwrpasol bleidlais o gydymdeimlad a pherthynasau yr ymadawedig, a phasiwyd hyny drwy i bawb godi ar eu traed. Hefyd aethpwyd drwy ddwy anthem, "Ar lan 'r Iorddonen ddofn" (T. Gabriel, F.T.S.C., Bargoed) a'r llall, "The Christian's Home" (G. James, A.C., Ferndale). Cafwyd hefyd adroddiad gan Brynmor Jones, un o blant Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar. Testyn ei adroddiad oedd, "Y cawr dirwestol," ac er fod yr adroddwr yn fychan aeth trwy ei waith yn ardderchog, a phawb yn ei fwynhau. Cawsom hefyd ddatganiad swynol gan Miss Jenette Thomas, dynes ieuanc o'r Cefn. Dechreuwyd cyfarfod yr hwyr trwy i un o blant y Cefn, Miss Nellie Lewis, adrodd penod, ac aeth y Parch. E. R. Dennis, Trecynon, i weddi. Llywyddwyd gan Mr. J. L. Rowlands, swyddfa'r 'Aberdare Leader.' Canwyd amryw dônau eto ynghyd a'r ddwy anthem. Rhoddwyd pedwarawd gan gyfeillion o'r Cefn, ac unawd gan Miss Megan Davies, Aberdar, yn ei modd meistrolgar ei hun. Llongyfarchwn yr arweinydd ar ei waith yn dwyn canu mor dda i'n clywedigaeth a'r mwynhad dan yr amgylchiadau terfysglyd yr ydym ynddynt. Cynorthwywyd ef gan Miss Susie Davies, Cefn, wrth yr Organ, a dygwyd cyfarfod yr hwyr i derfyniad gan y Parch. J. Carrara Davies, Cefn. Darparwyd lluniaeth i'r ymwelwyr gan bobl dda y Cefn, a diolchgar iawn oedd teimlad pawb am eu caredigrwydd. Swyddogion y pwyllgor eleni oedd—Llywydd: Mr. Thomas D. Lewis, Cefn; Islywydd: Mr. John Jones, Aberdar; Trysorydd: Mr. Taliesin Griffiths, Aberdar; Ysgrifenydd: Mr. Willie Jones, Aberdar. Hyderwn y cawn gynal y gymanfa nesaf a heddwch wedi taenu ei fendithion dros y byd, a phawb yn barod i roddi diolch o ddyfnder enaid gyda sain cân a moliant i "Hen gynaliwr teulu'r llawr."

UN OEDD YNO.

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Undodiaid Ceredigion, Mehefin 6, yn nghapel Penybont, Llandyssul, trwy ganiatad caredig y gweinidog a'r eglwys. Meddiannwyd llawer o honom gan fwy o bryder nag arfer eleni, gan fod cynifer o'n cantorion arferol yn y rhyfel, ac yn parotoi i ryfel, ond yr oedd y llwyddiant amlwg ddilynodd yr wyl, yn fwy na chyfiawnhau ein gwaith yn ei chynal. Diolch am frwdfrydedd a phenderfyniad yr ychydig sydd yn aros.

Cafwyd tywydd braf a dymunol, a bu hynny yn un elfen gref yn ei llwyddiant. Yr arweinydd am yr ail waith yn olynol ydoedd Mr. L. T. Thomas, Penarwel, Pantydefaid, a gwnaeth ei waith yn ganmoladwy drwy y dydd. Dechreuwyd cyfarfod y boreu gan y Parch. Lewis Williams, a chafwyd anerchiad pwrpasol iawn gan lywydd y boreu, y Parch. D. Cellan Evans. Cafodd y plant gryn sylw yng nghwrdd y bore, ond efalle, nid i'r un graddau ag y dylent. Canwyd amryw donau ynghyd a'r anthem, "Gwyn eu byd y meirw" (J. Edwards, Miskin). Yr oedd cwrdd y prydnawn yn orlawn. Dechreuwyd gan y Parch. John Davies, a llywyddwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas. Cododd safon gerddorol cwrdd y prydnawn lawer iawn, a chafwyd gryn hwyl wrth ganu amryw o'r tonau, ac yn arbennig yr anthem, "Drylliwyd y delyn" (D. Jenkins). Yn y cwrdd hwn cafwyd anerchiad pwrpasol iawn ac unawd gan Mr. E. Telorydd Nicholas, Ystalyfera, awdwr y dôn "Ynysgeinion." Gorffenwyd cwrdd y prydnawn gan y Parch. T. Oswald Williams, B.A. Yr oedd cwrdd yr hwyr eto yn fwy nas gallai y capel eang ei gynwys. Dechreuwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, a llywyddwyd mewn modd hapus iawn gan y Parch. D. C. Griffiths (B.), gweinidog Penybont. Yr ydym fel undeb yn teimlo yn ddiolchgar iawn iddo ef ac i'r eglwys am roddi benthyg eu capel eang a hardd i gynhal ein Cymanfa Ganu. Cafwyd hefyd anerchiad buddiol a diddorol gan y Parch. T. Madoc Jones, Ficer Llandyssul. Gorffennwyd gwasanaeth yr hwyr gan y Parch. W. J. Roberts, gweinidog y Wesleyaid. Yn awr, pan mae y gymanfa drosodd, a'r fath lwyddiant wedi ei dilyn, er ini weled eisiau y cyfeillion o Gellionen eleni, na foed i ni osod ein telynau ar yr helyg; gwnaed pawb o honnom ei ore i gario yspryd y Gymanfa bob Sul i'r gwasanaeth a'r addoliad; os metha y gymanfa yn hyn y mae yn methu yn ei gwir amcan. Y cyfeilyddesau oeddynt—Misses Jones, Rhydygwin; Davies, Brondeifi; Pugh, Capelybryn; Thomas, Bwlchyfadfa; Evans, Pantdefaid. Swyddogion y Pwyllgor ydynt—Cadeirydd: Mr. Josiah R. Jones, Garthowen. Trysorydd: Mr. David Davies, Pantdefaid; Ysgrifenydd: Mr. T. G. Thomas, Talgarreg.

PRIODAS.

Yng Nghapel y Graig, Trebanos, dydd Iau, Mai 31, o flaen y cofrestrydd, Mr. Noah Lewis Davies, a'r Parch. D. G. Rees, unwyd mewn glan briodas Mr. Thomas H. Powell â Miss Catherine Lewis, Bryntawe, Glais.

MARWGOFION.

EBRILL 2, yn 20 mlwydd oed bu farw J. Pryce Jones (milwr yn adran yr H.A.C. o'r fyddin Brydeinig) yn yr Ysbyty yn Ffrainc. Clwyfwyd ef ychydig oriau'n flaenorol, a rhoes ei fywyd ieuanc a glân yn aberth ar allor gwasanaeth i'w wlad a dynoliaeth. Unig fab ydoedd i Mr. a Mrs. Evan Jones, 57, Nightingale Lane, Llundain, a ŵyr i Mr. a Mrs. Jones, Pantybyr, Pencarreg. Hanai felly o gyff Undodaidd parchus iawn yn eglwysi Caeronen a Brondeifi, ac yr oedd y ddwy eglwys yn flin o'i fyned. Aelod ffyddlon o'i febyd ydoedd yn eglwys Clapham Junction, ond y mae lle cynnes i'r eglwysi ac i'r YMOFYNYDD yng nghalon y tad er yr adeg pan fynychai Rydygwin o Ddolbwba. Ar nos Sul, Ebrill yr 22ain, cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa iddo yn Clapham Junction. Duw'r diddanwch a gysuro ei rieni anwyl yn eu galar a'u hiraeth. Y mae "er wedi marw yn llefaru eto."

"Marles-Thomas. On the 2nd May, by enemy action against his ship whilst on Admiralty duty in the Atlantic Ocean, Lewis Marles-Thomas, a chief officer in the British Merchant Shipping Service, youngest and only surviving son of the late Rev. William Marles-Thomas (Gwilym Marles) of Llwynrhydowen, Cardiganshire." Mae'r uchod, yr hwn a gymerwyd o'r 'Cambrian News' yn llefaru drosto ei hun. Chwith yw meddwl fod yr olaf o fechgyn (bu iddo bedwar) yr addfwyn a'r didwyll Gwilym Marles, wedi ein gadael, wedi colli ei fywyd tra yn gwasanaethu ei wlad. Mae pump o ferched Gwilym Marles yn fyw eto, a chredwn fod pawb o Undodiaid Cymru, a llawer o Undodiaid Lloegr yn cydymdeimlo'n fawr a hwynt. Hyderwn y cânt nerth i beidio galaru fel rhai heb obaith, er wedi colli yr unig frawd oedd ganddynt. Yr oedd yr ymadawedig yn 4c oed. "He is not dead: he has awakened from the dream of life."

MAI YR 8FED, yn 42 mlwydd oed, ar ol cystudd byr, Margaret Jones, anwyl briod Mr. John Jones, Glynisgoed, Ffostrasol, gynt o Abercefel, Llandyssul. Merch ydoedd yr ymadawedig i'r diweddar Mr. William Evans, Gilfachwenisaf, Llandyssul. Bu yn wraig ddarbodus, yn fam ofalus, ac ennillodd serch a pharch yr ardalwyr, ar gyfrif ei thymer addfwyn a'i charedigrwydd parod. Gadawodd mewn galar mawr o'i cholli, priod, dau blentyn ieuanc, ynghyd a pherthynasau eraill. Y dydd Sadwrn dilynol claddwyd ei gweddillion ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd yn y ty a phregethwyd yn y capel gan y Parch. Tom Davies, Bwlchygroes, lle y buasai yr ymadawedig yn aelod, a gorffenwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. Arthur Thomas.

MAI 19, bu farw Thomas James, Alltfach, plwyf Llanbedr, yn 67 oed, gan adael priod, pump o blant, a chylch eang o berthynasau, mewn galar ar ei ol. Dioddefodd gystudd caled am amryw fisoedd, ac iddo ef yr oedd gollyngdod o'i boenau yn ddymunol, ond i'w deulu mae ei ymadawiad wedi peri hiraeth dwys, a gwelir ei le yn wâg iawn am hir amser. Bu am flynyddau—o gwmpas pump-ar-hugain—yng ngwasanaeth y diweddar Mr. Hughes, Neuaddfawr, a Mrs. Hughes ar ol hynny, a choleddid syniad uchel gan y ddau am dano ar gyfrif ei ffyddlondeb. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Capelygroes, dydd Iau canlynol, pryd y daeth tyrfa luosog yng nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Mr. Jones, ficer Llanwnen, a phregethwyd yn y capel gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle.

MAI 22, bu farw Rachel Jones, anwyl ferch Evan a Margaret Jones, Glydwer, plwyf Llanwenog, yn 16 oed. 'Ni fu ei hiechyd yn gryf er yn ieuanc; ond yn ddiweddar yr oedd lle i obeithio ei bod ar orchfygu ei hanwyldeb, hyd o fewn i ychydig ddyddiau i'w marwolaeth, pan y cafodd ad-glefychiad, a bu ei hymadawiad, felly, yn annisgwyliadwy. Mae bwlch mawr ar ei hol yn y teulu a'r gymydogaeth, oherwydd yr oedd yn un a fawr hoffid gan bawb a'i hadnabyddai; a chydymdeimlir yn fawr a'r teulu yn eu galar. Nerth a gaffont i beidio galaru yn ormodol ac heb obaith. Hebryngwyd yr hyn oedd farwol o honi i gladdfa Llanwenog, dydd Iau canlynol, gan dyrfa anarferol luosog. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Cribyn, oddiar Matt. v. 4 (testun o'i dewisiad hi ei hun), a gwasanaethwyd yn Llanwenog gan y Parchn. Mr. Lewis, Aberayron, a Mr. Morris, y ficer. Yr oedd yn bresenol hefyd y Parch. Simon Jones, Abertawe, i'r hwn yr oedd yr ymadawedig yn nith.

MAI 29, yn 71 mlwydd oed, John Jones, o'r Gwernllwyn, ger Pontardawe. Ganwyd ein hen dad yn Llachartfawr, tyddyn gerllaw y lle y bu farw. Dywedir gan lawer oeddynt yn adnabod John Jones, iddo feddu ar gof rhagorol, ac er yn ei ddyddiau olaf bron, medrai yn hawdd alw i gof bethau fyddent yn anhawdd i arall wneud. Bu efe yn weddw bron yr oll o'i oes faith, a sicr yw y teimiir hiraeth mawr ar ei ol. Claddwyd y dydd Gwener canlynol wrth Gellionen: gweinyddwyd gan y Parch. D. G. Rees.

MANION AC HANESION.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yng nghapel y Graig, nos Sul, Mai 27, cawd noson hyfryd, gyda Watcyn Wyn, "Crwth a Thelyn gwlad y gân," fel ei gelwid gan lawer. Un o feirdd naturiol Cymru oedd Wat. Pregethwyd, fel arfer, gan y Parch. D. G. Rees, a phregethodd y bardd ymadawedig i ni yn ei emynau melusion. Un bregeth yn dod o'r pwlpud a'r llall o'r fynwent. Cafodd deiliaid yr Ysgol Sabbothol yn y lle eu Gwledd Flynyddol yn y capel ar y mynydd, y Llungwyn, a chafodd pawb eu boddhau yn mhob ystyr.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Dymunir cydnabod gyda diolchgarwch y casgliadau canlynol—Rhydygwin, 12s. 2c.; Llwyn, 7s.; Capelybryn, 6s. 4½c.; Brondeifi, 5s.; Caeronen, 5s.; Capelyfadfa, 5s.; Hen Dy Cwrdd, Aberdar, 5s.

CAPELYGROES.—Y Llungwyn cynhaliwyd Gwyl Dê flynyddol yr Ysgol Sul. Rhoddwyd y wledd gan Miss Evans, Ffynonfair; Mrs. Richards, Lowtre; Miss Evans, Felinban, a Miss Jones, Tynewydd, i'r rhai y mae diolch gwresog yn ddyledus am eu caredigrwydd. Yn yr hwyr cawd Cyfarfod Llenyddol dan lywyddiaeth y gweinidog, ac arweiniad Mr. Tom Lloyd, Llysfaen. Awd trwy raglen hir o adrodd a chanu, a chawd cyfarfod hwylus a dymunol dros ben. Canodd y côr amryw ddarnau hollol newydd dan arweiniad medrus Mr. D. Jones, Smithy, Llanwnen.

Y GYMANFA YSGOLION.—Cynhaliodd eglwysi Alltyplaca, Capelygroes, Caeronen a Brondeifi eu Cymanfa Ysgolion yn eglwys Brondeifi, ar y 23ain o Fai, pan holwyd y gwahanol ysgolion yn y pedair pennod gyntaf

yn yr efengyl yn ol St. Marc, gan y gweinidogion lleol. Edrychai'r ysgolion yn llewyrchus ddigon, ond tybed a'i *polish* ar gyfer y dydd ydoedd. Rhwydd y canfyddir fod angen athrawon mewn oed ar y gwahanol ysgolion : "Llunier i gall haner gair."

CAPELYBRYN.—Sul, Mai 27, cynhaliodd Undeb Ysgolion Ciliau, Rhydygwin, Cribyn, Capelybryn a Cwm eu cymanfa flynyddol yn y lle uchod. Hwn oedd y tro cyntaf i'r undeb yma gynal y gymanfa ar ddydd Sul. Galwad y llywodraeth am gydweithrediad yn yr amser enbyd hwn drwy i bawb ddefnyddio y chwe' diwrnod gwaith o'r wythnos wrth eu gorchwylion bydol barodd i bwyllgor yr undeb benderfynu cynal y gymanfa eleni ar ddydd Sul, ond bu y gymanfa mor llwyddianus yn mhob ystyr a'r rhai ydym wedi gael yn y gorphenol. Holwyd yr ysgolion gan y Parchn. J. Davies, D. Evans, L. Williams, a D. Cellan Evans. Cyflawnwyd y rhan arweiniol o'r gwasanaeth yng nghyfarfod y boreu gan y Parch. J. Davies, ac yng nghyfarfod y prydnawn gan y Parch. Glyn Edwards (B.), Cwrtnewydd. Yn yr hwyr cynhaliwyd *Rehearsal* o dan arweiniad Mr. L. T. Thomas, Penarwel, er ymarfer y tônau ar gyfer y gymanfa ganu. Chwareuwyd yr *organ* drwy y dydd gan Miss Pugh, Bryngranod.

DYRCHAFIAD.—Yroedd yn llawenydd mawr genym weled fod Mr. D. Martin Jones, Gwyon Castle, Llandyssul, trysorydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, wedi ei ddyrchafu i fod yn Ynad Heddwch dros Sir Aberteifi. Dymunem ei longyfarch yn galonnog ar yr anrhydedd hwn, a gobeithiwn fod iddo flynyddoedd lawer o wasanaeth defnyddiol i'w Sir ac i'w enwad.

(*Oherwydd prinder gofod gadawyd allan amryw o'r Manion; ymddengys y gweddill yn y rhifyn nesaf.*)

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Llywydd: Mr. Josiah R. Jones, Garthowen.

.. CYNHELIR Y ..

CYFARFODYDD BLYNYDDOL

.. YNG ..

NGHILIAU AERON,

Dyddiau Mercher ac Iau, Awst 1 a 2, 1917

Pryd y disgwylir i weinidogion yr enwad i wasanaethu. Y mae yr eglwys mewn gohebiaeth a hwy, ac nid yw yr holl drefniadau yn gyflawn pan ar fyned i'r wasg. Bydd trefn yr oedfaon fel y canlyn—

Rhydygwin, nos Fercher, am 7. Gwasanaeth a dwy Bregeth.
Ciliau, eto eto eto eto.
Bore dydd Iau, am 10. Pwyllgorau y Gymdeithas yng Nghiliau.
Dydd Iau, am 2. Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
Dydd Iau, am 6. Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Danfoner gopi o Benderfyniadau fwriedir ddwyn o flaen y Gymdeithas i'r Ysgrifennydd erbyn Gorffenaf 21.

T. ARTHUR THOMAS, *Ysgrifenydd.*

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross. M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. L. Schroeder, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £22,947,804. Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.

Reserve Fund .. £4,000,000.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1916.

To		£	s.	d.
	Capital Paid up, viz. :—			
	£2 10s. od. per Share on 1,912,317 Shares of £12 each	4,780,792	10	0
„	Reserve Fund	4,000,000	0	0
„	Dividend payable on 1st February, 1917	322,703	9	11
„	Balance of Profit and Loss Account	243,538	5	10
		9,347,034	5	9
„	Current, Deposit and other Accounts	174,620,724	17	9
„	Acceptances on account of Customers	7,220,780	12	2
		£191,188,539	15	8

By		£	s.	d.
	Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England	47,973,686	4	4
„	Money at Call and at Short Notice and Stock Exchange Loans ...	8,844,377	19	10
„	Investments :—			
	War Loans, at cost (of which £1,490,000 is lodged for Public and other Accounts)	33,399,534	13	6
	Stocks Guaranteed by the British Government, &c.	326,406	10	0
	British Railway Debenture and Preference Stocks, Corporation Stocks	1,924,813	0	4
	Colonial and Foreign Government Stocks and Bonds	751,520	12	11
	Sundry Investments	788,021	0	10
„	Bills of Exchange	23,336,817	0	9
		112,345,177	2	6
„	Advances on Current Accounts, &c....	63,868,856	17	4
„	Liabilities of Customers for Acceptances as per contra	7,220,780	12	2
„	Bank Premises at Head Office and Branches	2,753,725	3	8
		£191,188,539	15	8